General Pharmaceutical Council

Gwneud penderfyniadau da: Banc amodau a chanllawiau

Gorffennaf 2023

Cynnwys

Mwy amdanom ni ..... Error! Bookmark not defined.

Rhagarweiniad ..... Error! Bookmark not defined.

Beth sydd yn y ddogfen hon ..... Error! Bookmark not defined.

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon **1**

Cydraddoldeb ac amrywiaeth ..... Error! Bookmark not defined.

Mwy am amodau ..... Error! Bookmark not defined.

Beth yw amodau? **2**

Pryd i ystyried amodau ..... Error! Bookmark not defined.

Achosion iechyd ..... Error! Bookmark not defined.

Ysgrifennu amodau ..... Error! Bookmark not defined.

Monitro amodau ..... Error! Bookmark not defined.

Adolygu amodau ..... Error! Bookmark not defined.

Banc amodau ..... Error! Bookmark not defined.

Atodiad 1 - Profi am alcohol a chyffuriau **18**

Mwy amdanom ni

1. Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) yw'r rheoleiddydd ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferylliaeth a fferyllfeydd cofrestredig yn Lloegr, Yr Alban a Chymru. Fel rhan o'n rôl, rydym yn gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol cyffredinol eu bodloni trwy gydol eu gyrfaoedd, yn ogystal â'r safonau y mae perchnogion fferyllfeydd yn gyfrifol am eu bodloni, i sicrhau y caiff gwasanaethau fferyllol eu darparu mewn ffordd ddiogel ac effeithiol yn neu o fferyllfa gofrestredig.

Rhagarweiniad

Beth sydd yn y ddogfen hon

2. Mae amodau yn gyfyngiadau ar arfer gweithiwr fferyllol proffesiynol am gyfnod penodol o amser, er mwyn mynd i'r afael â phryderon am eu gallu i arfer yn ddiogel ac effeithiol. Gosodir amodau gan y Pwyllgor Ffitrwydd i Arfer (PFfiA). Mae'r ddogfen hon yn esbonio beth yw amodau, pryd ddylid eu hystyried ac mae'n cynnwys banc o amodau enghreifftiol. Dylid darllen y ddogfen hon law yn llaw â:
    - *Gorchmynion interim: canllawiau ar y broses o wneud cais a threfn gwneud penderfyniadau'r pwyllgor*
    - *Gwneud penderfyniadau da: gwrandawiadau ffitrwydd i arfer a chanllawiau ar sancsiynau*
    - *Ail-ennill lle ar y gofrestr: canllawiau i ymgeisyddion a phwyllgorau*
3. Mae polisi cyhoeddiadau a datgelu'r CFfC yn esbonio am ba gyfnod y caiff amodau ar arfer gweithiwr fferyllol proffesiynol eu cyhoeddi ar y gofrestr, ac ym mha amgylchiadau y bydd y CFfC yn datgelu mwy o wybodaeth am amodau.

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon

4. Anelir y canllawiau hyn at:
    - aelodau'r PFfiA sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn gwrandawiadau ffitrwydd i arfer ac am ysgrifennu amodau
    - gweithwyr fferyllol proffesiynol y lleisiwyd pryder yn eu cylch neu y gosodwyd amodau arnynt
    - staff CFfC sy'n rhan o ymchwilio achosion a monitro gweithwyr fferyllol proffesiynol y gosodwyd amodau ar eu harfer
    - unrhyw un sydd â diddordeb mewn ffitrwydd i arfer ac unrhyw un allai fod wedi lleisio pryder inni.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

5. Mae'r CFfC wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wneud ei waith. Rhoddwn bwys ar amrywiaeth ac unigolyddiaeth yn ein staff, y proffesiwn a'n cyngor. Ein nod yw gwneud yn siŵr fod ein prosesau yn deg, gwrthrychol a thryloyw ac nad ydynt yn gwahaniaethu, a bod yr holl fudd-ddeiliaid yn derbyn lefel uchel o wasanaeth. Cadwn at yr

egwyddorion a amlinellwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac rydym wedi datblygu cynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

6. Disgwylir i holl staff y CFfC arddangos ein gwerthoedd a gweithio tuag at y nodau hynny drwy'r amser yn ystod y broses ffitrwydd i arfer. Bydd y CFfC yn gweithredu'n unol â'r hawliau a amlinellir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) fel y'u hymgorfforwyd mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Mwy am amodau

Beth yw amodau?

7. Mae amodau yn un o nifer o ddeilliannau i weithiwr fferyllol proffesiynol mewn gwrandawiad. Gosodir amodau ar arfer gweithiwr fferyllol proffesiynol am gyfnod penodol o amser, all fod hyd at dair blynedd. Gallant gynnwys cyfyngiadau ar eu harfer, ymrwymiad i arfer dan oruchwyliaeth, neu i gael eu hail-hyfforddi. Mae'r amodau yn cynnwys gwarchodaeth i gleifion a'r cyhoedd, tra'n caniatáu i weithiwr fferyllol proffesiynol barhau i arfer a delio ag unrhyw feysydd y mae angen eu gwella.

Pryd i ystyried amodau

8. Gellir gosod amodau mewn gwrandawiadau gorchmynion interim neu unwaith y gwneir canfyddiad o amhariad mewn prif wrandawiad neu wrandawiad adolygu. Gellir gosod amodau hefyd mewn gwrandawiadau adfer. Gall amodau fod yn briodol mewn achosion sy'n ymwneud ag iechyd neu berfformiad gweithiwr fferyllol proffesiynol, neu pan mae tystiolaeth o ddiffygion mewn meysydd penodol o arfer gweithiwr fferyllol proffesiynol. Mae amodau yn debygol o fod yn briodol ac ymarferol os yw'r gweithiwr fferyllol proffesiynol wedi dangos dealltwriaeth ac os yw'r PFfiA yn credu fod gan y gweithiwr fferyllol proffesiynol y potensial i ymateb yn gadarnhaol i amodau.

9. Ni fydd amodau yn briodol pan nad yw'r gweithiwr fferyllol proffesiynol wedi mynychu gwrandawiad neu ateb cwestiynau am eu gallu a pharodrwydd i gydymffurfio ag unrhyw amodau. Ni fydd amodau yn briodol ychwaith mewn achosion lle y mae'r honiad yn cynnwys gweithiwr proffesiynol yn cael eu cyhuddo o droseddau difrifol. Mewn achosion gorchmynion interim, ni fydd amodau yn briodol mewn amgylchiadau lle y mae'r honiadau yn arbennig o ddifrifol a lle y mae'r sail dros wneud gorchymyn er lles y cyhoedd am resymau eraill fel y sefydlwyd yn achos D v General Medical Council [2015] EWHC 847 (Admin).

10. Wrth ystyried amodau, rhaid i'r PFfiA fod yn fodlon:

    - y bydd y gweithiwr fferyllol proffesiynol yn fodlon ac abl cydymffurfio ag amodau
    - y bydd yr amodau yn gwarchod y cyhoedd ac yn mynd i'r afael â lles y cyhoedd yng ngoleuni'r canfyddiadau penodol ar amhariad ac unrhyw risg y mae wedi'i ganfod
    - y gall ysgrifennu amodau priodol ac ymarferol, er enghraifft, rhai sy'n gweddu i amgylchedd gwaith arferol y gweithiwr fferyllol proffesiynol, neu'n cysylltu'n uniongyrchol â'r gwelliant sydd ei angen

Achosion iechyd

11. Mewn achosion iechyd, prif bwrpas yr amodau yw rheoli risgiau cyflwr iechyd sy'n effeithio ar allu'r gweithiwr fferyllol proffesiynol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Nid yw'r amodau yn ffordd o greu gwelliant yng nghyflwr iechyd y gweithiwr fferyllol proffesiynol, er y gallai gweithio o dan amodau gyfrannu at welliant. Mae gwella iechyd yn fater i'r sawl sy'n trin y gweithiwr fferyllol proffesiynol ac yn ddewis claf a wneir gan y gweithiwr fferyllol proffesiynol.
12. Felly, wrth ystyried amodau mewn achosion iechyd rhaid i'r PFfiA fod yn fodlon:
    - fod y risgiau a amlygwyd o fethu gallu darparu gofal diogel ac effeithiol oherwydd cyflwr iechyd y gweithiwr fferyllol proffesiynol yn rhai y gellir eu rheoli'n briodol trwy amodau
    - fod gan y gweithiwr fferyllol proffesiynol ddealltwriaeth wirioneddol o'r risgiau a amlygwyd o fethu gallu darparu gofal diogel ac effeithiol oherwydd eu cyflwr iechyd
    - adeg y gwrandawiad fod y cyflwr iechyd yn golygu y bydd yr amodau yn ymarferol ac yn rhai y gellir cydymffurfio â nhw ac
    - y bydd y gweithiwr fferyllol proffesiynol yn cydymffurfio ag amodau ynghylch eu cyflwr meddygol
13. Mae Atodiad 1 yn cynnwys gwybodaeth am brofi ar gyfer cyffuriau ac alcohol.

Ysgrifennu amodau

14. Dylid ysgrifennu amodau er mwyn mynd i'r afael â phryderon penodol yn arfer gweithiwr fferyllol proffesiynol. Dylent fod yn glir, ymarferol a gorfodadwy. Mae'n bwysig fod gan weithiwr fferyllol proffesiynol ddealltwriaeth glir o beth mae disgwyl iddynt ei gyflawni. Felly, rhaid i'r PFfiA ofalu ei fod bob tro'n cyflwyno'r amodau yn glir, yn ogystal â'i resymau dros osod yr amodau, o fewn y penderfyniad. Hynny yw, bydd y PFfiA yn cyflwyno ar gyfer pob amod unigol resymwaith clir pam fod ei angen a sut y bwriedir gweithredu.
15. Rhaid i'r PFfiA ofalu y gall yr amodau a osodir warchod y cyhoedd a chreu gwelliant yn ymddygiad ac arfer gweithiwr fferyllol proffesiynol. Dylai'r PFfiA fod yn glir ynghylch pa dystiolaeth fydd ei hangen er mwyn bod yn fodlon fod yr amodau yn cael eu cyflawni, er enghraifft, tystiolaeth y cwblhawyd unrhyw gyrsiau hyfforddiant yn llwyddiannus, neu adroddiadau gan oruchwylydd neu fentor.
16. Mae'r banc isod yn cynnwys rhai amodau enghreifftiol, ond dylai'r PFfiA bob tro ystyried ysgrifennu amod newydd sbon i fynd i'r afael â phryderon am yr achos unigol hwnnw. Ni ddylai'r PFfiA ddefnyddio'r amodau enghreifftiol yn amodau templed i'w dewis a'u gosod fel y'u hysgrifennwyd yn y banc.
17. Wrth ysgrifennu amodau, rhaid i'r PFfiA ystyried:
    - risgiau'r achos, gan ofalu fod amodau yn ymwneud â'r achos unigol hwnnw yn cael eu hysgrifennu gyntaf
    - sut fydd cleifion a'r cyhoedd yn cael eu diogelu rhag y risgiau hyn, a
    - sut ellir dangos a monitro fod yr amodau yn cael eu bodloni
18. Cyn cwblhau gwrandawiad, rhaid i'r PFfiA ganiatáu amser ymhob achos i'r gweithiwr fferyllol proffesiynol ddarllen ac ystyried yr amodau a fwriedir. Y rheswm am hynny yw gofalu fod y

gweithiwr fferyllol proffesiynol wedi eu deall ac wedi cael cyfle i dynnu sylw at unrhyw faterion posib gyda'r amodau allai effeithio ar eu gallu i gydymffurfio â nhw. Os codir unrhyw faterion ar yr adeg hon, dylai'r PFfiA ail-ystyried priodoldeb a geiriad yr amodau.

19. Canlyniad amod na chafodd ei ysgrifennu'n dda yw ei fod yn debygol o fod yn anorfodadwy. Gall olygu hefyd fod cleifion a'r cyhoedd mewn perygl o gael eu niweidio.

Monitro amodau

20. Unwaith y gosodwyd amodau ar arfer gweithiwr fferyllol proffesiynol, bydd staff y CFfC yn cysylltu â nhw ac yn monitro sut maen nhw'n cydymffurfio â'r amodau. Ni fydd staff y CFfC yn dehongli neu egluro amodau sy'n amwys neu aneglur. Dylid cyfeirio achosion lle nad yw amodau yn glir yn ôl at y PFfiA i gael eglurhad.
21. Os oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r gweithiwr fferyllol proffesiynol wedi cydymffurfio â'r amodau, neu os oes rhywbeth wedi newid allai effeithio ar effeithiolrwydd yr amodau, efallai y cynhelir gwrandawiad adolygu cynnar fel y gellir cymryd camau priodol.
22. Gellir cyfeirio achos at wrandawiad adolygu cynnar os oes tystiolaeth:
    - nad oes angen yr amodau mwyach
    - fod y gweithiwr fferyllol proffesiynol wedi methu cydymffurfio ag amod neu nad yw'r amod yn ymarferol mwyach ac nad yw'r gweithiwr fferyllol proffesiynol yn gallu cydymffurfio ag ef
    - fod iechyd neu berfformiad y gweithiwr fferyllol proffesiynol wedi dirywio, neu
    - y lleisiwyd rhagor o bryderon

Adolygu amodau

23. Gosodir amodau ar gofrestriad gweithiwr fferyllol proffesiynol am gyfnod penodol ac, fel arfer, byddant yn cael eu hadolygu gan y PFfiA yn fuan cyn i'r cyfnod ddod i ben. Wrth adolygu amodau, dylai'r PFfiA ystyried a gydymffurfiwyd â'r amodau ac os oes eu hangen o hyd i fynd i'r afael â phryderon am arfer y gweithiwr fferyllol proffesiynol.
24. Wrth adolygu amodau, gall y PFfiA
    - ymestyn y cyfnod ar gyfer cydymffurfio â'r amodau am hyd at dair blynedd yn cychwyn o'r amser pan fyddai'r cyfnod blaenorol wedi dod i ben
    - ychwanegu at, dileu neu ddiwygio'r amodau
    - atal y gweithiwr fferyllol proffesiynol o'r gofrestr, am hyd at 12 mis
    - tynnu enw'r gweithiwr fferyllol proffesiynol oddi ar y gofrestr

Banc amodau

Tabl 1: Amodau enghreifftiol pan mae angen rhoi gwybod i eraill am amodau gweithiwr fferyllol proffesiynol

Rhif enghraifft	Rhoi gwybod i eraill	Cyfrinachol?	Pethau i'w nodi
1	Mae'n rhaid ichi: • roi i'r CFfC fanylion cyswllt eich man cyflogaeth ac unrhyw un sy'n debygol o fod yn rheolwr neu bobl sy'n eich goruchwylio (cyflogydd, perchennog y fferyllfa, asiantaeth, fferyllydd arolygol, fferyllydd cyfrifol) • ddweud wrth y CFfC cyn ichi dderbyn unrhyw swydd y mae'n rhaid ichi fod yn gofrestredig gyda'r CFfC ar ei chyfer • roi i'r CFfC fanylion y rôl a'r oriau y byddwch yn eu gweithio bob wythnos, gan gynnwys gwaith locwm neu gymorth • ddweud wrth y CFfC os yw unrhyw un o'r manylion uchod yn newid	Na	Dylai'r PFfiA gadarnhau gyda'r gweithiwr fferyllol proffesiynol ymhle y maent yn bwriadu gweithio a sicrhau y caiff y sefydliad/pobl cywir eu henwi yn yr amod.
2	Mae'n rhaid ichi roi gwybod yn ysgrifenedig i'r bobl ganlynol am yr amodau hyn cyn ichi gychwyn unrhyw waith, ar gyfer unrhyw waith am dâl neu'n ddi-dâl y mae angen cofrestru gyda'r CFfC ar ei gyfer: [add/remove as applicable] • Pob cyflogydd neu gontractwr	Na	Ni all y PFfiA fynnu fod amodau'n cael eu datgelu oni bai ei fod yn cydymffurfio â darpariaethau GDPR UK. Felly, mae'n rhaid i'r PFfiA ofalu ei fod yn fodlon fod angen i'r bobl/sefydliadau wybod am yr amodau cyn y gall fynnu fod y gweithiwr fferyllol proffesiynol yn rhoi gwybod iddynt. Dylid rhoi

Rhif enghraifft	Rhoi gwybod i eraill	Cyfrinachol?	Pethau i'w nodi
	• Asiantwyr yn gweithredu ar ran cyflogwyr ac asiantaethau locwm • Fferyllwyr Arolygol • Fferyllwyr Cyfrifol • Rheolwyr Llinell • Goruchwylwyr gweithle • Swyddog Cyfrifol am gyffuriau dan reolaeth • Darpar gyflogwyr (dylid rhoi gwybod wrth wneud cais) Mae'n rhaid ichi roi copi o'r hysbysiad(au) i'r CFfC		rhesymau pam fod angen rhoi gwybod i'r sawl a ddewiswyd, fel arall, nid yw'n debygol y bydd modd gorfodi'r amod. Y rheswm am hynny yw na ellir mynnu fod gweithiwr fferyllol proffesiynol yn datgelu gwybodaeth bersonol oni bai fod angen hynny ar gyfer deilliant rheoleiddiol.
3	Mae'n rhaid ichi roi gwybod i'r CFfC os ydych yn gweithio'n fferyllydd neu dechnegydd fferyllol y tu allan i Brydain Fawr.	Na	
4	Mae'n rhaid ichi roi i'r CFfC enw a manylion cyswllt eich meddyg teulu ac unrhyw ymarferydd meddygol cofrestredig arall sy'n gyfrifol am ofalu amdanoch a'ch cydsyniad y gall y CFfC ysgrifennu atynt ynghylch eich iechyd.	Ie	
5	Mae'n rhaid ichi gael cymeradwyaeth ysgrifenedig eich ymarferydd meddygol cyn derbyn unrhyw swydd y mae'n rhaid ichi fod yn gofrestredig gyda'r CFfC ar ei chyfer. Mae'n rhaid ichi ddanfon copi o'u cadarnhad ysgrifenedig at y CFfC.	Ie	Dylai'r PFfiA ystyried pa fath o gymeradwyaeth mae ei hangen. Er enghraifft, nodyn ffit i weithio, adroddiad byr yn cadarnhau fod y gwaith yn addas, ac ati. Dylai'r PFfiA ystyried hefyd faint o fanylion am unrhyw swydd y bydd angen i'r gweithiwr fferyllol proffesiynol eu rhannu gyda'r

Rhif enghraifft	Rhoi gwybod i eraill	Cyfrinachol?	Pethau i'w nodi
			ymarferydd meddygol i sicrhau bod y gymeradwyaeth yn ystyrlon.

Tabl 2: Amodau enghreifftiol pan mae angen cymorth meddygol mewn achosion iechyd

Rhif enghraifft	Cael cymorth ar gyfer cyflyrau iechyd	Cyfrinachol?	Pethau i'w nodi
6	Mae'n rhaid ichi: • roi eich hun, ac aros, dan oruchwyliaeth meddyg teulu/ymarferydd meddygol sy'n arbenigo ar [area] • fynychu apwyntiadau a drefnwyd dilyn eu cyngor, a'r driniaeth a argymhellir	Ie	Ni ddylai'r PFfiA orfodi goruchwyliaeth gan arbenigwr os nad yw'r gweithiwr fferyllol proffesiynol yng ngofal arbenigwr yn barod neu os oes un ar gael. Ni all y CFfC orfodi triniaeth a gofal y penderfynodd y GIG nad oes ei angen ar gyfer anghenion gofal iechyd gweithiwr fferyllol proffesiynol. Yn yr un modd, ni ddylai'r PFfiA orfodi goruchwyliaeth nad yw ar gael yn ymarferol gan ei bod yn annhebyg fod hwn yn amod y gellir ei orfodi.
7	Mae'n rhaid ichi gysylltu â'r CFfC ynghylch derbyn adroddiadau meddygol gan eich meddyg teulu/ymgynghorydd bob [sawl mis] neu pan mae'r CFfC yn gofyn amdanynt.	Ie	Dylai'r PFfiA ddweud oddi wrth bwy ddylai'r adroddiad ddod. Dylai'r PFfiA fod yn glir hefyd beth mae angen i'r adroddiad ei drafod o ran y canfyddiadau a wnaeth y PFfiA ynghylch amhariad. Atgoffir y PFfiA mai ei rôl yw rheoli'r risg y gallai cyflwr iechyd effeithio ar ddarparu gofal yn ddiogel ac effeithiol ac nid gwella iechyd y gweithiwr fferyllol proffesiynol.
8	Mae'n rhaid ichi gadw golwg ar eich ymrwymiadau proffesiynol a chyfyngu neu roi'r gorau i'ch arfer fferyllol, yn unol â chyngor eich goruchwylydd meddygol. Mae'n rhaid ichi roi gwybod i'r CFfC am hyn o fewn 7 diwrnod o gael y cyngor.	Ie	Nid yw amod o'r fath ond yn debygol o fod yn rhesymol lle y mae cysylltiad rhwng cyflwr iechyd gweithiwr fferyllol proffesiynol a'u gallu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Rhif enghraifft	Cael cymorth ar gyfer cyflyrau iechyd	Cyfrinachol?	Pethau i'w nodi
9	Mae'n rhaid ichi gael asesiadau iechyd galwedigaethol gydag ymarferydd meddygol cofrestredig a chydymffurfio ag unrhyw argymhellion a wnânt. Mae'n rhaid ichi drefnu iddynt ddanfon adroddiadau at y CFfC bob [number of months] mis.	Ie	Mae asesiad iechyd galwedigaethol yn archwiliad meddygol a gynhelir gan ffisegydd Iechyd Galwedigaethol. Ei nod fel arfer yw ateb cwestiynau a ofynnwyd gan gyflogydd. Yn bennaf, mae'r asesiad yn anelu at: • gynghori'r cyflogydd am fater iechyd y gweithiwr, a • gwneud argymhellion ar ba addasiadau ellid eu hystyried i wneud yn siŵr fod yna amgylchedd gwaith diogel ac iach ar gyfer y gweithiwr dan sylw Gall hefyd fod yn asesiad o ffitrwydd person i weithio. Nid yw asesiad Iechyd Galwedigaethol ond yn debygol o fod yn ymarferol pan mae cyflogwyr yn darparu gwasanaeth o'r fath. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r angen am neu gymesuredd adroddiadau Iechyd Galwedigaethol cyson pan mae tystiolaeth arall sy'n cynnig yr atebion i unrhyw gwestiwn y gallai adroddiad Iechyd Galwedigaethol fynd i'r afael â nhw.

Tabl 3: Amodau enghreifftiol pan mae angen monitro neu reoli camddefnyddio alcohol neu sylweddau

Rhif enghraifft	Monitro a rheoli camddefnyddio alcohol neu sylweddau	Cyfrinachol?	Pethau i'w nodi
10	Mae'n rhaid ichi gael profion a drefnwyd gan, neu ar ran, y CFfC ar gyfer [defnydd o alcohol a/neu gyffuriau] bob [sawl mis a/neu pan mae'r CFfC yn gofyn am hynny]	Ie	Mae cynnwys 'Pan mae'r CFfC yn gofyn am hynny' yn galluogi'r CFfC i drefnu profion ad hoc os ddaw'n amlwg yn ystod y cyfnod monitro fod eu hangen. Dylai Pwyllgorau ystyried y canllawiau atodedig ar adnabod a nodi'r profion priodol. Bydd y CFfC yn talu am yr holl brofion meddygol.
11	Mae'n rhaid ichi roi'r gorau i yfed alcohol/cyfyngu faint o alcohol rydych yn ei yfed yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan eich goruchwylydd meddygol / meddyg teulu.	Ie	Dylai'r PFfiA fod yn ofalus wrth osod yr amod hwn nad yw'n dibynnu'n unig ar adroddiad asesydd meddygol y CFfC ond ei fod yn rhoi ystyriaeth i'r dystiolaeth feddygol yn ei chrynswth ac a yw hyn yn gyflawnadwy yng ngoleuni cyflwr iechyd y gweithiwr fferyllol proffesiynol adeg y gwrandawiad. Os nad yw, efallai nad yw'r amod hwn yn briodol gan ei fod yn debygol o olygu y bydd y gweithiwr fferyllol proffesiynol yn methu.
12	Mae'n rhaid ichi beidio hunan-feddyginiaethu (ac eithrio cyffuriau dros y cownter nad oes angen rhagnodiad ar eu cyfer), ac ni ddylech ond cymryd cyffuriau a ragnodwyd ichi gan eich meddyg teulu neu unrhyw ragnodydd cyfrifol sy'n gyfrifol am eich gofal.	Ie	Dylai'r PFfiA fod yn ofalus wrth osod yr amod hwn nad yw'n dibynnu'n unig ar adroddiad asesydd meddygol y CFfC ond ei fod yn rhoi ystyriaeth i'r dystiolaeth feddygol yn ei chrynswth ac a yw hyn yn gyflawnadwy yng ngoleuni cyflwr iechyd y gweithiwr fferyllol proffesiynol adeg y gwrandawiad. Os nad yw, efallai nad yw'r amod hwn yn briodol.

Tabl 4: Amodau enghreifftiol pan mae angen goruchwyliaeth neu fentora

Rhif enghraifft	Goruchwyliaeth a mentora	Cyfrinachol?	Pethau i'w nodi
13	Mae'n rhaid ichi, o fewn [sawl wythnos] i'r dyddiad y daw'r gorchymyn hwn yn weithredol: • ddod o hyd i oruchwylydd man gwaith (y mae'n rhaid iddynt fod yn fferyllydd cofrestredig neu dechnegydd fferyllol) a gofyn i'r CFfC gymeradwyo eich goruchwylydd man gwaith • roi eich hun, ac aros, o dan eu goruchwyliaeth [uniongyrchol/agos/o bell] • roi caniatâd i'r CFfC gyfnewid gwybodaeth gyda'ch goruchwylydd man gwaith am eich ymdrechion i wella eich arfer fferyllol Os nad ydych yn gyflogedig, mae'n rhaid ichi ofyn i'r CFfC gymeradwyo eich goruchwylydd man gwaith cyn ichi ddechrau gweithio	Na	Dylai'r PFfiA roi ystyriaeth i drefniadau gweithle'r gweithiwr fferyllol proffesiynol ac ystyried a yw goruchwyliaeth gan weithiwr fferyllol proffesiynol yn bosib. Dylent ystyried hefyd y math o oruchwyliaeth, yn seiliedig ar y disgrifiadau isod: • Uniongyrchol- dylai'r gweithiwr fferyllol proffesiynol weithio gyda'u goruchwylydd drwy'r amser. • Agos – dylai'r gweithiwr fferyllol proffesiynol weithio yn yr un lle â'u goruchwylydd a ddylai fod ar gael drwy'r amser. • O bell – gall y goruchwylydd weithio ar wahân i'r gweithiwr fferyllol proffesiynol ond rhaid iddynt fod ar gael i roi cyngor neu gymorth. Dylai'r goruchwylydd adolygu gwaith y gweithiwr fferyllol proffesiynol yn rheolaidd a chael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r gweithiwr fferyllol proffesiynol.
14	Mae'n rhaid ichi drefnu fod eich goruchwylydd man gwaith yn danfon adroddiad ar eich cynnydd a datblygiad o ran y [maes/meysydd oedd yn destun pryder] yn syth at y CFfC	Na	Mae'n rhaid i'r PFfiA nodi'n glir beth mae'n rhaid i'r goruchwylydd ei gynnwys yn yr adroddiad. Mae hyn yn cynnwys meysydd arfer penodol neu feysydd y mae disgwyl i'r

Rhif enghraifft	Goruchwyliaeth a mentora	Cyfrinachol?	Pethau i'w nodi
	bob [number of months] mis neu pan mae'r CFfC yn gofyn am un.		gweithiwr fferyllol proffesiynol arddangos gwelliant neu ddatblygiad ynddynt.
15	Ni ddylech gyflawni [gwasanaeth/maes arfer] oni bai eich bod yn cael eich goruchwylio'n uniongyrchol gan fferyllydd.	Na	Mae'n rhaid i'r PFfiA gynnwys y meysydd arfer a/neu wasanaethau penodol sy'n destun pryder yn yr achos.
16	Mae'n rhaid ichi enwi a gofyn i'r CFfC gymeradwyo fferyllydd neu dechnegydd priodol i fod yn fentor ichi o fewn [number of weeks] wythnos i'r dyddiad y daw'r gorchymyn hwn yn weithredol. Mae'n rhaid ichi gadw cysylltiad â'ch mentor, [insert how often] am y canlynol: • [maes/mater]	Na	Gall mentora olygu: • helpu'r gweithiwr fferyllol proffesiynol i adnabod ffyrdd o wella eu perfformiad a datblygu eu sgiliau a'u gyrfa; • rhannu arbenigedd, gwerthoedd, sgiliau a safbwyntiau; • cynnig cyngor ar faterion anodd; • helpu'r gweithiwr fferyllol proffesiynol i ddod o hyd i atebion i faterion anodd; • datblygu cynlluniau gweithredu ac asesu cynnydd Dylai'r PFfiA nodi'n glir beth yw amcan y mentora. Dylai'r PFfiA nodi a ddylai'r cyswllt fod o bell neu wyneb yn wyneb.
17	Mae'n rhaid ichi drefnu fod eich mentor yn ysgrifennu at y CFfC bob [number of months] mis i gadarnhau fod cyfarfodydd yn digwydd.	Na	Mae'n rhaid i'r PFfiA nodi'n glir beth mae angen i'r goruchwylydd roi sylw iddo. Mae hyn yn cynnwys meysydd arfer penodol neu feysydd y mae disgwyl i'r gweithiwr fferyllol proffesiynol arddangos gwelliant neu ddatblygiad ynddynt.

Tabl 5: Amodau enghreifftiol pan mae angen datblygiad neu hyfforddiant

Rhif enghraifft	Datblygiad a hyfforddiant	Cyfrinachol?	Pethau i'w nodi
18	Mae'n rhaid ichi weithio gyda [person] i gynhyrchu cynllun datblygu personol, a gynlluniwyd yn benodol i ddelio â diffygion ym meysydd canlynol eich arfer: • [area of concern] Mae'n rhaid ichi ddanfon copi o'ch cynllun datblygu personol at y CFfC o fewn [number of weeks] wythnos i'r dyddiad y daw'r gorchymyn hwn yn weithredol.	Na	Nid oes rhaid i'r person a'r gweithiwr fferyllol proffesiynol weithio gyda'i gilydd wyneb yn wyneb oni bai fod y PFfiA yn meddwl fod angen hynny.
19	Mae'n rhaid ichi drefnu fod y [the person who drew up the PDP] yn darparu adroddiad ar y cynnydd a wnaethoch tuag at gyflawni'r nodau a amlinellwyd yn eich cynllun datblygu personol bob [number of months] am [length of time].	Na	Mae'n rhaid i'r PFfiA nodi'n glir beth mae angen i'r goruchwylydd roi sylw iddo. Mae hyn yn cynnwys meysydd arfer penodol neu feysydd y mae disgwyl i'r gweithiwr fferyllol proffesiynol arddangos gwelliant neu ddatblygiad ynddynt.
20	Mae'n rhaid ichi ddilyn hyfforddiant yn y meysydd canlynol: • [area of practice] Chi fydd yn talu am yr hyfforddiant. Mae'n rhaid ichi ddanfon tystiolaeth eich bod wedi'i gwblhau at y CFfC o fewn 10 niwrnod i'r cwrs ddigwydd.	Na	Dylai'r PFfiA fod yn glir beth ddylai'r deilliannau dysgu fod i'r gweithiwr fferyllol proffesiynol, fel y gallant benderfynu ai cwrs hyfforddiant yw'r ffordd orau o'u cyflawni. Dylai'r PFfiA ystyried: • a ddylid caniatáu i'r gweithiwr fferyllol proffesiynol weithio • a ydynt angen goruchwyliaeth agos wrth iddynt hyfforddi, ac • a ddylai goruchwylydd man gwaith ddarparu adroddiad ar ôl cyfnod penodol, yn disgrifio

Rhif enghraifft	Datblygiad a hyfforddiant	Cyfrinachol?	Pethau i'w nodi
			galluoedd y gweithiwr fferyllol proffesiynol wedi i'r hyfforddiant gael ei gwblhau Os yw'r PFfiA yn barnu fod angen hynny, dylai osod amodau 15, 16 ac 17.

Tabl 6: Amodau enghreifftiol pan mae angen cyfyngu arfer yn ôl oriau, amgylcheddau neu leoliadau

Rhif enghraifft	Cyfyngu arfer wrth ystyried pryderon	Cyfrinachol?	Pethau i'w nodi
21	Ni ddylech dderbyn unrhyw [ddyletswyddau ar-alw/gwaith penwythnos/gwaith wedi oriau arferol/dyletswyddau locwm /dyletswyddau cymorth].	Na	Os yw'r PFfiA yn dewis 'oriau estynedig' a/neu 'wedi oriau arferol', dylai nodi faint o oriau a ganiateir bob dydd a beth yw'r amserau dechrau a gorffen derbyniol. Dylai ystyried hefyd sut all hyn effeithio gallu'r gweithiwr fferyllol proffesiynol i ddod o hyd i waith.
22	Ni ddylech weithio yn unig ymarferydd/fferyllydd arolygol/fferyllydd cyfrifol/ [fferyllydd/technegydd fferyllol] locwm neu gymorth.	Na	
23	Ni ddylai fod gennych unrhyw ran ym mherchnogaeth na rheolaeth unrhyw fferyllfa.	Na	Dylai'r PFfiA ystyried yn ofalus beth yw ystyr dim rhan a chan ddibynnu ar ffeithiau yr achos unigol dylai egluro beth yw ystyr dim rhan.
24	Mae'n rhaid ichi gyfyngu eich arfer fel gweithiwr fferyllol proffesiynol i [number] [days/hours] yr wythnos.	Na	
25	Mae'n rhaid ichi gyfyngu eich arfer fferyllol i [geographical area] a/neu [named pharmacy/named local health board].	Na	
26	Ni ddylech ddarparu [type of service].	Na	Mae'n rhaid i'r PFfiA osod y mathau o wasanaeth(au) sy'n berthnasol i'r achos, er

Rhif enghraifft	Cyfyngu arfer wrth ystyried pryderon	Cyfrinachol?	Pethau i'w nodi
			enghraifft, darparu gwasanaethau atal cenhedlu hormonaidd brys / gwasanaethau fferyllol ar-lein / therapïau amgen / cyngor clinigol i weithwyr gofal iechyd eraill / cyffuriau/gwasanaethau ffordd o fyw mewn carchardai neu gartrefi gofal arbenigol / ymweliadau cartref / profion wrth ddarparu gofal
27	Ni ddylech arfer fferylliaeth mewn unrhyw fferyllfa lle y mae eich [perthynas/aelod o'r teulu] yn rhan o redeg y fferyllfa.	Na	

Atodiad 1- Profi am alcohol a chyffuriau

Profi am alcohol

Ar gyfer profion alcohol, dylid casglu gwallt pen a samplau gwaed i'w profi. Oherwydd enghreifftiau o ganlyniadau negyddol anghywir a chanlyniadau cadarnhaol anghywir, ni ddylid defnyddio profion gwallt ar gyfer alcohol ar eu pen eu hunain a dylid eu defnyddio yn hytrach gyda phrofion gwaed biocemegol (profion gwaed). Mae profion gwaed yn canfod mewnlif mwy diweddar na sampl gwallt.

Profi gwallt

Mae'r Gymdeithas Profi Gwallt (SoHT) yn credu fod samplau gwallt pen yn fwy dibynadwy na blew corfforol a samplau o ewinedd.

Oherwydd cyfradd dwf amrywiol samplau o ewinedd bys a bawd mawr, maent felly'n cael eu hystyried yn llai dibynadwy na gwallt pen. Dangoswyd hefyd fod canlyniadau o samplau ewinedd yn chwyddo'r canlyniadau, hynny yw, dangos lefelau canfod uwch.

Gan y gellir cymryd darnau o wallt pen ar gyfer eu dadansoddi'n doriadol i ddangos cymryd llai o alcohol neu ddim o gwbl, mae'n dilyn felly ei fod yn well dewis na blew corfforol gan na ellir rhannu hwnnw, sy'n golygu nad yw ond yn rhoi canlyniad deuaidd.

Cyfnodau canfod

Gwallt pen: hyd at 6 mis (6cm o wallt pen). Ni all ganfod mwy na hynny oherwydd effaith golchi allan sy'n cychwyn ar tua 3cm o wallt pen.

Blew corfforol: 1cm = 3 mis+ / 2cm = 5 mis+

Gewinedd bys: mae un darn o ewinedd yn canfod am hyd at 6 mis.

Gewin bawd mawr: mae un darn o ewinedd yn canfod am hyd at 12 mis.

Marcwyr alcohol mewn profion gwaed

Mae canlyniadau profion gwaed yn canfod sylweddau yn y gwaed adeg cymryd y gwaed.

Ffosffatidylethanol (PEth): caiff ei gasglu o smotyn o waed sych (pigo'r bys) ac mae'n cynnwys y mis cyn ei gasglu.

Transferrin carbohydrad-ddiffygiol (CDT): caiff ei gasglu trwy dynnu gwaed â nodwydd ac mae'n canfod am hyd at 4 wythnos. Mae'r sensitifrwydd yn amrywio, ac efallai na fydd nifer o yfwyr gormodol yn cael eu canfod trwy brawf CDT yn unig.

Prawf Swyddogaeth Afu/Iau (LFT): Y marciwr diagnostig a ddefnyddir i adnabod amlygiad cronig i alcohol. Mae ganddo sensitifrwydd isel i fewnlif gormodol diweddar a gall lefelau uwch fod am sawl rheswm heblaw am yfed trwm, sy'n awgrymu penodolrwydd isel i alcohol.

Nodweddion marcwyr alcohol mewn gwallt

Marciwr Ethyl Glwcwronid (EtG): mae EtG yn fetabolyn ysgafn iawn i alcohol. Gall lliwio, permio, ymlacio a lliwuro gwallt arwain at ganlyniad negyddol anghywir ar gyfer EtG.

Ethyl Palmitad (EtPa): Caiff ei ffurfio ym mhresenoldeb ethanol o asidau brasterog rhydd, triglyceridau, lipoproteinau neu ffosffolipidau. Mae'n bosib y gall EtPa ddarparu canlyniad uwch anghywir oherwydd y defnyddiwyd rhai cynhyrchion gwallt.

Gall EtPa ac EtG mewn gwallt wahaniaethu rhwng yfed cymdeithasol cymedrol a cham-drin alcohol yn ddifrifol trwy ddetholedd uchel. Gellir gwella sensitifrwydd fwy fyth trwy eu defnyddio ar y cyd. Fodd bynnag, nid yw'r naill farciwr na'r llall yn gallu profi ymataliaeth lwyr, ac ni ellir eu defnyddio i roi amcan meintiol ôl-weithredol o faint o alcohol a yfwyd.

Mae profi ar gyfer EtPa yn cael ei ystyried yn farciwr eilaidd a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â phrawf ar gyfer EtG, sef y prif farciwr ar gyfer asesu yfed alcohol gormodol cronig. Gan y gall EtPa fod yn bresennol mewn cynhyrchion gwallt cosmetig, ac y gellir o'r herwydd eu canfod ar wallt pobl nad ydynt wedi yfed alcohol, ni all EtPa cadarnhaol fod yn unig sail barnu yfed alcohol gormodol cronig. Yn hytrach, rhaid ystyried gwybodaeth arall, gan gynnwys yn bennaf ganlyniad prawf EtG, er mwyn rhoi dehongliad am yfed alcohol gormodol cronig.

Profi am gyffuriau

Ar gyfer profion cyffuriau y sampl yr argymhellir y dylid ei gymryd yw gwallt pen oherwydd y gyfradd dwf gyson a'r ffaith y gellir ei rannu i ddangos defnydd arferol, boed hynny'n ddadansoddiad toriadol chwarterol bob 3 mis, dadansoddiad toriadol bob dau fis neu ddadansoddiad o fis i fis. Ni ellir rhannu samplau gwallt pen na gewinedd, ac mae samplau gewinedd yn llai dibynadwy oherwydd bod y canlyniadau'n cael eu chwyddo ac oherwydd y gyfradd dwf amrywiol. Mae samplau blew corfforol a gewinedd yn llai tebygol o ganfod lefel isel o ddefnyddio cyffuriau.

Cyfnodau canfod

Gwallt pen: misoedd i flynyddoedd – 1cm = 1 mis / 2cm = 2 fis / 3cm = 3 mis / 4cm = 4 mis

Blew corfforol: 1cm = 3 mis+ / 2cm = 5 mis+

Gewinedd bys: mae un darn o ewinedd yn canfod am hyd at 6 mis.

Gewin bawd mawr: mae un darn o ewinedd yn canfod am hyd at 12 mis.

Trosolwg vs toriadol

Oherwydd yr amser a gymer i wallt ymddangos o'r ffoligl, nid y gwallt a dorrir o'r croen pen yw'r tyfiant gwallt mwyaf diweddar. Mae'n cynnig cofnod o ddefnydd hanesyddol o gyffuriau yn y cyfnod cyn casglu'r gwallt. Nid yw'n bosib barnu pryd yn union y mae unigolyn wedi defnyddio, neu roi'r gorau i ddefnyddio, cyffur. Dim ond pan geir canlyniadau negyddol ar gyfer cudyn o wallt y gellir eu hystyried yn rhai sy'n gyson â rhoi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau.

Rhoi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau

Mae cyfnod gorffwys y cylch gwallt o gwmpas pedwar mis, sy'n golygu y gall gynnwys tystiolaeth o ddefnyddio cyffuriau yn y gorffennol - hynny yw, defnyddio cyffuriau mewn cyfnod o amser na chynrychiolir mohono gan y gwallt yn y cudyn hwnnw. Oherwydd hyn, nid oes ffin bendant rhwng cudyn gwallt cadarnhaol a negyddol, ond yn hytrach barth 'pontio' ehangach sy'n cynnwys crynodiadau sylweddol lai o gyffuriau a metabolynnau cyffuriau o ddefnydd blaenorol.

Rhwystr rhag darparu samplau penodol

Ni ellir defnyddio nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldebau 2010 yn hawl amodol i beidio darparu sampl i'w brofi. Fel corff cyhoeddus yn gweithredu dan fandad statudol i ddiogelu'r cyhoedd, mae'n rhaid i weithiwr fferyllol proffesiynol ddarparu sampl i'w brofi fel y gallwn sicrhau bod y gweithwyr fferyllol proffesiynol a gofrestrir gyda ni yn ddiogel i arfer.